Ein cyf/Our ref KS/07291/19

Janet Finch-Saunders AM
Cadeirydd
Y Pwyllgor Deisebau

Government.Committee.Business@llyw.cymru

16 Awst 2019

Annwyl Janet,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 29 Gorffennaf ar ran y Pwyllgor Deisebau ynghylch Deiseb P-05-738, Deiseb Gyhoeddus ar gyfer Ffordd Osgoi Dinas Powys.

Mae nifer o gynigion o ran trafnidiaeth yn cael eu cyflwyno a allai fod o fudd i Ddinas Powys a'r ardal ehangach. Mae'r rhain yn cynnwys gwelliannau o dan y fasnachfraint reilffordd newydd a diwygio gwasanaethau byrsiau drwy'r cynigion deddfwriaethol sy'n cael eu cyflwyno fel rhan o Fil arfaethedig Trafnidiaeth Gyhoeddus (Cymru). Bydd y newidiadau a gaiff eu cynnig yn y Bil yn ceisio mynd i'r afael â rhai o effeithiau negyddol dadreoleiddio ar ddefnyddwyr, gweithredwyr ac awdurdodau, a hynny drwy greu nifer o ddulliau a fyddai'n galluogi awdurdodau lleol i ymyrryd os byddant yn dymuno gwneud hynny.

Yn ogystal â gwelliannau i'r system trafnidiaeth gyhoeddus rydym yn cydweithio'n agos ag awdurdodau lleol er mwyn pennu pecyn o fesurau ar hyd coridorau allweddol yn Ninas-ranbarth y Brifddinas er mwyn mynd i'r afael â thagfeydd ar y ffyrdd ac annog pobl i ddefnyddio dulliau trafnidiaeth cynaliadwy yn hytrach na'u ceir.

Yn gywir,

Ken Skates AC/AM
Gweinidog yr Economi a Thrafnidiaeth
Minister for Economy and Transport